

**Ken Skates AC/AM**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Cabinet Secretary for Economy and Transport**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-KS-3899-17

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

15 Tachwedd 2017

Annwyl Nick

**DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AM  
LYWODRAETH CYMRU YN CAFFAEL MAES AWYR CAERDYDD**

Rhoddwyd y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor am yr argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru yn Caffael Maes Awyr Caerdydd, ar 19 Medi 2016.

Nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud ar rai o'r argymhellion. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith pellach ar yr argymhellion hynny ar 10 Tachwedd 2017. Amgaeaf y diweddariad hwnnw.

O ganlyniad i'r camau a gymerwyd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai argymhelliad 5 yn unig sy'n parhau'n agored.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – Caffael a Pherchenogi Maes Awyr Caerdydd**

**Tachwedd 2017**

<b>Llywodraeth Cymru yn Caffael a Pherchnogi Maes Awyr Caerdydd</b>	
<b>Dyddiad y Diweddariad: Tachwedd 2017</b> <b>Cyfarwyddwr Cyfrifol: Simon Jones</b>	
<b>1</b>	<b>We recommend that the Welsh Government regularly review the businesses it has designated as anchor companies and regionally important companies.</b> (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). <b>(Tudalen 14)</b>
<p>Aeth Llywodraeth Cymru ati yng ngwanwyn 2017 i adolygu'r busnesau y mae wedi'u dynodi'n gwmnïau angori ac yn gwmnïau o bwys rhanbarthol. Yn sgil yr adolygiad hwnnw, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd dros yr Economi a'r Seilwaith i gynnwys cohort ehangach o randdeiliaid a busnesau yn y rhwydwaith Cwmnïau Angori. Y rheswm dros wneud hynny yw meithrin cysylltiadau cryfach rhwng ystod ehangach o fusnesau, sefydliadau academaidd a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan adlewyrchu'r ffordd o weithio ar draws y llywodraeth a amlinellir yn "Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol".</p>	
<b>2</b>	<b>We recommend that the Welsh Government consider engaging with Transport Scotland to understand the different approach they have taken to membership of their holding company, how conflicts of interest are managed within the Scottish model and to consider the merits of such an approach alongside the work currently being undertaken to consider the composition of the CIAL and Holdco boards.</b> (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). <b>(Tudalen 35)</b>
<p>Mae uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda Transport Scotland a thîm rheoli Glasgow Prestwick er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd wahanol o weithio y maent wedi'u mabwysiadu. Mae rhinweddau'r ffordd y mae Glasgow Prestwick yn cael ei reoli o dan fodel yr Alban wedi cael eu hystyried, a chynhaliwyd trafodaeth gyda CIAL hefyd, a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r trefniadau'n cynnig y graddau o annibyniaeth y mae Llywodraeth Cymru yn credu bod ei hangen yng Nghymru.</p> <p>Bydd WGC Holdco yn defnyddio'r gwersi perthnasol a ddysgwyd mewn perthynas â chyfansoddiad byrddau CIAL a WGC Holdco (gweler argymhellion 3, 4 a 5).</p>	
<b>3</b>	<b>We recommend that Holdco encourage the CIAL Board to consider expanding its Membership to include wider aviation and/or airline experience.</b> (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). <b>(Tudalen 35)</b>

Mae CIAL wedi penodi aelod ychwanegol o'r bwrdd sydd â phrofiad ym mhob agwedd ar gynnal busnes maes awyr mewn amgylchedd rhyngwladol. Mae CIAL hefyd wrthi'n recriwtio aelod ychwanegol o'r tîm gweithredol a fydd yn gyfrifol am waith cynllunio a datblygu'r maes awyr.

4

**With regard to the composition of the Holdco Board we recommend that the Welsh Government give consideration to extending its membership to include a civil servant from outside the Directorate that has responsibility for economy, skills and natural resources to minimise the potential for conflicts of interest to arise. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 35)**

Mae bwrdd WGC Holdco wedi ystyried ei aelodaeth a'r angen i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng sgiliau, y meysydd cyfrifoldeb presennol ac annibyniaeth, a'r angen i barhau i weithio mewn ffordd effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried cael uwch was sifil ychwanegol o'r tu allan i'r Gyfarwyddiaeth ar fwrdd WGC Holdco ac roedd yn teimlo y byddai penodi unigolyn nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd (yn unol ag argymhelliad 5) yn fwy buddiol ac yn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau.

5

**We endorse the recommendation of the Auditor General's report and previously that of the Welsh Government's Internal Audit Services that Holdco should appoint a board member from outside of Welsh Government with appropriate business experience. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 35)**

Ar ôl proses Penodiadau Cyhoeddus, penododd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd dros yr Economi a'r Seilwaith Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol yn aelod o Fwrdd WGC Holdco. Wrth inni ddrafftio'r diweddariad hwn, nid oedd y penodiad hwnnw wedi dechrau'n ffurfiol ac o'r herwydd, nid oes modd inni rannu enw a manylion bywgraffyddol yr unigolyn ar hyn o bryd.

Byddwn yn rhoi diweddariad arall i'r Pwyllgor unwaith y bydd y penodiad hwnnw wedi dechrau'n ffurfiol.

6

**We recognise the uncertainty of longer term business planning and that Holdco may wish to formally approve actions on a two year outlook. However, we recommend that Holdco should also require medium and longer term financial projections as part of its review of the airport's business plans. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 45)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar Gynllun Busnes Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ar gyfer 2017/18. Mae'n ymdrin â'r ddwy flynedd nesaf, ac mae ynddo ragolwg ariannol ar gyfer cyfnod o bum mlynedd a chynllun ariannol dangosol ar gyfer cyfnod o ugain mlynedd.

7	<p><b>The Committee recommends an update is provided by the Welsh Government following completion of the financial health review and whether this has resulted in any change in terms of the commercial loans and that the Committee is kept updated on any additional loan finance that is agreed. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 46)</b></p>
<p>Yn ystod y broses Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a gynhaliwyd gan Deloitte cyn y cytunwyd ar y benthyciad ariannol i Faes Awyr Caerdydd, ystyriwyd sefyllfa ariannol y maes awyr a thelerau'r benthyciad yn unol â'r Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad. Cafodd y cyngor a roddwyd gan Deloitte yn ystod yr Adolygiad hwnnw o lechyd Ariannol ei adlewyrchu yn nhelerau'r benthyciad y cytunwyd arno gyda'r Maes Awyr.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw fenthyciadau ariannol ychwanegol y cytunir arnynt.</p>	
8	<p><b>In order to measure the benefits to Wales of passengers coming through the airport we recommend that CIAL and the Welsh Government work together to collect this data. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 52)</b></p>
<p>Mae CIAL wedi dweud ei bod yn anodd casglu data am gyrchfannau dilynol am nad oes eu hangen fel rhan o'r broses archebu. Fodd bynnag, byddwn yn gallu casglu'r data hwnnw (ynghyd â gwybodaeth arall) drwy ofyn i deithwyr lenwi holiaduron yn wirfoddol. Dylid cydnabod, serch hynny, mai niferoedd cymharol isel sy'n ymateb i holiaduron o'r fath fel arfer.</p>	
9	<p><b>Given our observations regarding signage with regard to the Airport Express bus service the Committee recommends that CIAL work with the Welsh Government to ensure signage is improved with specific consideration to making more user friendly for foreign travellers. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 52)</b></p>
<p>Aed ati i wella arwyddion trafndiaeth gyhoeddus yn y maes awyr yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar T9, bws gwennol y Maes Awyr. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei adolygu'n rheolaidd.</p>	
10	<p><b>With regards to discussions between Cardiff Airport and Arriva Trains Wales to improve rail links to the airport, we recommend that the Welsh Government work with both parties to encourage dialogue to improve the rail links to the airport. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig). (Tudalen 52)</b></p>
<p>Rydym wrthi ar hyn o bryd yn caffael gweithredwr a phartner datblygu ar gyfer y gwasanaeth rheilffyrdd. Yn y Gwahoddiad i Gyflwyno Tendrau Terfynol, gofynnir i ymgeiswyr amlinellu cynigion i ddarparu amrywiaeth o opsiynau trafndiaeth integredig ar gyfer y rheilffyrdd, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn parhau i drafod â'r maes awyr er mwyn rhoi gwybodaeth lawn iddynt am y datblygiadau hyn.</p>	